
Datganiad ynghylch amrywio trwyddedau Mynediad i Sbectrwm 3.4 GHz, 3.5 GHz a 3.6 GHz

Bydd amrywio trwyddedau yn rhoi Penderfyniad y
Comisiwn Ewropeaidd 2019/235 ar waith

DATGANIAD

Dyddiad Cyhoeddi: 25 Mehefin 2019

Cynnwys

Adran

1. Cynnwys

1

1. Trosolwg

Yn gynharach eleni, fe wnaeth pedwar gweithredwr (EE Limited, Hutchison, Telefonica, a Vodafone) wneud cais am newid (amrywio trwyddedau) eu trwyddedau sbectrwm yn yr ystod rhwng 3410 MHz a 3680 MHz. Byddai'r newidiadau hyn yn diweddarau'r amodau technegol ym mhob trwydded, i'w gwneud yn gydnaws â Phenderfyniad Cysoni diweddar yr Undeb Ewropeaidd ("Penderfyniad yr UE") yn y band 3.4 GHz i 3.8 GHz.¹

Ar 18 Ebrill 2019, fe wnaethom gyhoeddi dogfen ymgynghori a oedd yn nodi penderfyniad dros dro ein bod yn ystyried cytuno â'r ceisiadau am amrywio'r drwydded², oherwydd byddai hyn yn gyson ag amodau arfaethedig y drwydded ar gyfer y band 3.6 GHz i 3.8 GHz (a nodir yn ein dogfen ymgynghori "Dyfarnu'r bandiau sbectrwm 700 MHz a 3.6-3.8 GHz" (yr "Ymgynghoriad Dyfarnu").³

Ein penderfyniad – yn gryno

Byddwn yn amrywio'r trwyddedau sbectrwm perthnasol (pedair trwydded Mynediad i Sbectrwm 3.4GHz, un drwydded Mynediad i Sbectrwm 3.5GHz ac un drwydded Mynediad i Sbectrwm 3.6 GHz), yn unol â Phenderfyniad yr UE.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Benderfyniad yr UE yn cynnwys ychwanegu cyfyngiadau newydd ar allyriadau ar gyfer y Systemau Antena Gweithredol sy'n berthnasol i'r gwaith o gyflwyno systemau 4G a 5G yn y band amledd 3.4 GHz i 3.8 GHz. Oherwydd bod y band 3.4 GHz i 3.8 GHz yn fand amledd allweddol er mwyn darparu gwasanaethau 5G yn y DU, dylai'r newidiadau technegol helpu i hwyluso'r gwaith o gyflwyno gwasanaeth 5G capasiti uchel yn y dyfodol.

Mae Ofcom yn credu bod y penderfyniad i amrywio'r trwyddedau yn ôl y gofyn yn cyd-fynd â'n dyletswyddau statudol i hyrwyddo cystadleuaeth ac annog buddsoddi ac arloesi, er mwyn hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

¹ <https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:32019D0235&from=EN>

² <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-3/proposal-vary-3.4ghz-radio-spectrum-licences>

³ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/award-700mhz-3.6-3.8ghz-spectrum>